






Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Y Gell Cyngor Technegol

## Crynodeb o'r cyngor

07 Awst 2020



## Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

7 Awst 2020


### Crynodeb o'r prif bwyntiau

- Mae'r amcangyfrifon ar gyfer cyfradd twf digwyddedd yng Nghymru yn dangos y gallai heintiadau fod yn gostwng hyd at 3% y dydd neu'n cynyddu hyd at 4% y dydd. Fodd bynnag, mae ansicrwydd mawr yn yr amcangyfrifon hyn gan eu bod yn seiliedig ar niferoedd achosion isel a / neu gan fod clystyrau o frigiadau yn dylanwadu'n drwm arnynt.
- Mae'r canlyniadau cyntaf ar gyfer Cymru yn Astudiaeth Heintiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn amcangyfrif bod 0.05% o boblogaeth y gymuned (1,400 o bobl) wedi cael COVID-19 yn yr wythnos yn dechrau 27 Gorffennaf 2020. Bydd cryn ansicrwydd yn yr amcangyfrif hwn nes bod maint y sampl yn cynyddu dros ragor o wythnosau. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar lai na thri phrawf swab positif.

### Cyfradd twf

- Mae wyth model i'w cael ar hyn o bryd sy'n amcangyfrif y cyfraddau twf yng Nghymru. Caiff canlyniadau'r modelau hyn eu cyfuno gan ddefnyddio pwysoliadau cyfartal er mwyn darparu amcangyfrif cyffredinol o'r gyfradd twf. Mae Ffigur 1 yn dangos yr amcangyfrifon o'r cyfraddau twf diweddaraf ar gyfer Cymru, gan gynnwys y model cyfun.
- Amcangyfrifir bod y gyfradd twf bresennol rhwng -0.03 a 0.04. Mae cryn ansicrwydd ynghylch y gwir gyfradd twf; gallai heintiadau fod yn gostwng hyd at 3% y dydd neu'n cynyddu hyd at 4% y dydd.
- Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r gyfradd twf a'r rhif atgynhyrchu ar gyfer Cymru. Y rheswm am hyn yw bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar nifer bach o achosion neu bod clystyrau o frigiadau yn dylanwadu'n drwm arnynt, sy'n golygu nad ydynt yn ddigon cadarn i lywio penderfyniadau polisi.

**Ffigur 1: Yr amcangyfrifon cyfredol ar gyfer cyfradd twf yng Nghymru – gyda chyfyngau hyder 90%, a'r model cyfun yn seiliedig ar bwysoliadau cyfartal**



### Allwedd

Mae gan bob model liw gwahanol i wahaniaethu rhwng y gwahanol gyfranwyr. Nid oes dadansoddiad ar sail dull mewnbynnu data ar gael yr wythnos hon.

### Y gymhareb atgynhyrchu


- Yr amcangyfrif diweddaraf o'r rhif atgynhyrchu  $R_t$  ar gyfer Cymru gan SAGE yw rhwng 0.7 a 1.1. Oherwydd nifer isel yr achosion, mae'r amcangyfrif o  $R_t$  yn cael ei ddangos bellach fel amrediad heb amcangyfrif canolog. Mae'r cyfwng hyder mawr yn awgrymu lefel uchel o ansicrwydd ynghylch union werth  $R_t$ .
- Bydd gwerth  $R_t$  sy'n gyson is nag 1 yn arwain at leihad yn nifer yr achosion ac yn y derbyniadau i'r ysbyty, ond bydd gwerth gwerth  $R_t$  sy'n gyson uwch nag 1 yn arwain at gynnydd yn nifer yr achosion ac yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty. Wrth i nifer yr achosion ddisgyn, gallai effaith digwyddiadau gorwasgaru gynyddu a gallai achosion o ledaenu'r feirws i sawl person mewn cyfnod byr o amser arwain at amrywiadau yn nifer yr achosion.

### Yr amcangyfrif cyfredol o $R_t$

- Mae tystiolaeth bod amrywiadau bychan mewn  $R_t$  rhwng gwahanol wledydd y DU. Fodd bynnag, mae mwy o ansicrwydd yn yr amcangyfrifon ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, yn rhannol oherwydd niferoedd llai yr achosion a'r marwolaethau o gymharu â Lloegr.

- Ni fydd unrhyw newidiadau o ran trosglwyddo a allai fod wedi digwydd yn y ddwy i dair wythnos ddiwethaf yn cael eu hadlewyrchu mewn data clinigol eto, nac ychwaith felly yn yr amcangyfrifon cyfredol o  $R_t$ .
- Mae tri lleoliad sy'n arbennig o berthnasol i'r sefyllfa bresennol: y gymuned, cartrefi gofal ac ysbytai. Nid yw'r rhain yn annibynnol; gall haint gael ei ledaenu rhwng ysbytai a chartrefi gofal, o'r lleoliadau hyn yn ôl i'r gymuned, ac i'r gwrthwyneb. Ni ellir casglu'r rhain drwy amcangyfrif  $R_t$  ar wahân ar gyfer cartrefi gofal ac ysbytai. Nid yw  $R_t$  ond yn ystyried trosglwyddiad i eraill pan fydd y feirws wedi'i gyflwyno mewn poblogaeth benodol.
- Mae SAGE yn argymhell peidio â monitro'r sefyllfa mewn lleoliadau penodol gan ddefnyddio  $R_t$ , ond monitro yn hytrach sut mae nifer yr achosion a'r marwolaethau ynddynt yn newid a, lle bo modd, drwy gynnal ymchwiliad epidemiolegol i'r modd y mae'r tri epidemig yn rhyngweithio.
- Er mwyn ystyried yr holl dystiolaeth a'r holl ddulliau, mae'r canlyniadau o bob model yn cael eu cyfuno gan ddefnyddio pwysoliadau cyfartal i roi amcangyfrif cyffredinol o  $R_t$  yng Nghymru. Dangosir hwn mewn lliw du i'r dde o Ffigur 2 isod.
- Mae'r canlyniadau yn ddiennw er mwyn osgoi rhoi blaenoriaeth i un model penodol dros un arall. Dangosir cyfyngau hyder (90%) hefyd. Mae'r fethodoleg ar gyfer model Comix yn wahanol iawn, felly ni ellir ei gymharu â'r modelau eraill. Caiff ei blotio ar wahân i'r lleill, felly, a'i ddangos mewn lliw glas i'r dde o Ffigur 2.

**Ffigur 2. Amcangyfrifon cyfredol o  $R_t$  yng Nghymru – gyda chyfyngau hyder 90%, ynghyd â'r model cyfunol yn seiliedig ar bwysoliadau cyfartal**



### Allwedd

Mae gan bob model liw gwahanol i wahaniaethu rhwng y gwahanol gyfranwyr. Nid oes dadansoddiad ar sail dull mewnbynnu data ar gael yr wythnos hon.


## Amser haneru

- Ni ellir llunio amcangyfrifon dibynadwy o amseroedd haneru ar hyn o bryd oherwydd niferoedd isel a sefydlog y derbyniadau i'r ysbyty.

## Glynu wrth y mesurau presennol, a symudedd

- Mae [data diweddaraf IPSOS MORI](#) yn dangos bod llawer o bobl yng Nghymru yn parhau i ddilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol. Bu gostyngiad pellach yng Nghymru yn nifer y rhai sy'n teithio pan fo hynny'n hanfodol yn unig. Mae'r lefelau o ran gweithio o gartref, osgoi trafnidiaeth gyhoeddus nad yw'n hanfodol a chadw 2 metr oddi wrth bobl eraill yn parhau'n sefydlog.
- Mae Ffigur 3 isod yn dangos data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg o sawl gwlad. Mae pob un o'r camau wedi cynnwys tua 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru sydd rhwng 16 a 74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/-4.8 pwynt canran.

**Ffigur 3: Cydymffurfiaeth â'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol yng Nghymru**




- Mae [Astudiaeth Gymdeithasol Covid](#) yn dangos bod cydymffurfiaeth wedi parhau'n gymharol gyson dros y pythefnos diwethaf. Mae'r gydymffurfiaeth "mwyafrif" yn parhau tua 90% yn gyffredinol, ond mae ar ei isaf (70-80%) ymhlith oedolion o dan 30 oed. Yn ystod y cyfyngiadau symud llym (cyn i'r mesurau llacio ddod i rym), dywedodd 9 o bob 10 o bobl eu bod yn deall y rheolau ynghylch yr hyn y dylent fod

yn ei wneud i atal y feirws rhag lledaenu. Roedd dealltwriaeth o'r rheolau ynghylch cyfyngiadau llym ar ei huchaf ymysg oedolion dros 30 oed, gydag ychydig dros 3 o bob 5 oedolyn yn deall y rheolau'n llwyr, o'i gymharu â dim ond tua 1 o bob 2 oedolyn o dan 30 oed.

- Mae teithio yn yr wythnos ddiwethaf wedi cynyddu ar ôl ychydig o newid yn yr wythnos flaenorol. Mae'r cynnydd yn gyffredinol yn fwy nag yn y gwledydd eraill.
- Yng nghanol mis Ebrill roedd teithio [defnyddwyr Facebook](#) yng Nghymru 50% yn is na'r llinell sylfaen; mae hyn bellach tua 5% yn is ac mae wedi cynyddu yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Mae 25% o ddefnyddwyr Facebook yng Nghymru yn aros lle maen nhw - i lawr ychydig o'r wythnos ddiwethaf. Ddechrau mis Ebrill roedd tua 45% yn aros ble roeddent - tua 18% oedd hyn ddechrau mis Mawrth.
- [Mae data Apple](#) sy'n dangos ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol ers dechrau mis Gorffennaf. Dyma'r uchaf ers i'r data ddechrau ym mis Ionawr ac maent yn uwch nag yn y gwledydd eraill. Mae [data symudedd Google](#) yn dangos cynnydd mewn manwerthu a hamdden, archfarchnadoedd a fferyllfeydd, a thrafnidiaeth gyhoeddus hefyd. Nid oes llawer o newid o ran gweithleoedd a manau preswyl.
- Ar ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud roedd y patrymau symudedd yng Nghymru a Lloegr yn weddol debyg. Rhwng canol mis Mai a dechrau mis Mehefin, gwelwyd mwy o gynnydd mewn teithio yn Lloegr nag yng Nghymru, ac roedd patrwm yr Alban yn debyg i un Cymru. Yn ystod mis Gorffennaf cynyddodd teithio fwy yng Nghymru nag yn Lloegr ac mae hynny wedi parhau tan ddechrau mis Awst.
- Mae Ffigur 4 isod yn dangos y newid o ran teithio yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos 3 Ionawr – 6 Chwefror 2020.



**Ffigur 4: Newid mewn teithio yng Nghymru****Casglu data ar gyfer rhaglenni profi ac olrhain**

- Mae SAGE wedi nodi set o wybodaeth y bydd yn hanfodol ei chasglu drwy'r systemau profi ac olrhain, ynglŷn â'r achosion a'r cysylltiadau a nodir drwy brofi cymunedol ac olrhain cysylltiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - Cofnodi amser dechrau symptomau'r achosion cyfeirio.
  - Dylid profi pob cyswllt a gaiff ei olrhain o fewn cyfnod priodol ar ôl iddo ddod i gysylltiad ag achos cyfeirio.
  - Ar ôl cysylltu â nhw y tro cyntaf, parhau i gysylltu'n rheolaidd â'r rhai a ddaeth i gysylltiad â'r achosion cyfeirio, i gasglu gwybodaeth fel:
    - a. a ydynt yn profi'n bositif wedyn
    - b. pan mae eu symptomau'n dechrau
    - c. a ydynt yn dechrau cyfnod o hunanynysu/cwarantn
    - d. eu hymddygiad yn ystod y cyfnod hunanynysu/cwarantn ac ati - a ydynt yn cadw at y rheolau cwarantn; Os nad ydynt, beth sy'n rhwystro hynny a pha gymorth sydd ei angen arnynt?
  - Bydd gwybodaeth am yr hyn sy'n rhwystro pobl rhag cadw at y rheolau yn galluogi'r llywodraeth i greu darlun, rhag ofn bod rhwystrau arbennig o gyffredin, neu fod grwpiau penodol o bobl, e.e. pobl ddigartref neu

gymunedau teithwyr, yn ei chael yn anodd cadw at y canllawiau. Os felly, gellir ystyried gwneud newidiadau i'r system.

- Y lleoliad lle'r amheuir bod yr unigolyn wedi dod i gysylltiad â'r feirws (e.e. gartref, yn yr ysgol, yn y gweithle (gan gynnwys y math o weithle), lleoliad cymdeithasol (e.e. tafarn/bwyty, neu ddigwyddiad dros dro fel priodas).
  - Patrymau cymudo, gan gynnwys y dull teithio
  - Mathau o berthynas rhwng y cyswllt a'r achos cyfeirio, e.e. aelod o'r un aelwyd neu swigen gymorth; yr un siop / cyfleuster hamdden ac yn y blaen.
  - Amseriad y rhyngweithio â'r system brofi ac olrhain ac unrhyw brofion (antigenau a seroleg)
  - Cyfran yr achosion sy'n gysylltiedig â chlwstwr hysbys / cyfran yr achosion nad ydynt yn gysylltiedig ag achos neu gadwyn drosglwyddo hysbys – os yw'r gyfran hon yn isel, dylid profi unigolion ar raddfa fawr a defnyddio system o olrhain cysylltiadau tuag yn ôl yn unol â hynny
  - Canlyniad prawf seroleg positif - mae hyn yn golygu bod modd osgoi gofyn i unigolion fynd i gwarantyn sawl gwaith
- Mae angen y data hyn, sy'n helpu i ddisgrifio ffynhonnell debygol yr haint ym mhob pob achos hysbys, er mwyn gallu cynnal asesiadau risg ar gyfer trosglwyddo dan yr ymyriadau cyfredol neu rai yn y dyfodol, ac er mwyn gwella cywirdeb modelau sy'n efelychu lledaeniad yr epidemig.

### Astudiaeth Heintiadau'r ONS

- Mae canlyniadau cyntaf Cymru yn dangos bod 0.05% o boblogaeth y gymuned wedi cael COVID-19 yn yr wythnos hyd at 02 Awst (cyfwng credadwy 95%: 0.01% i 0.11%). Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 2,200 (cyfwng credadwy 95% cyfwng credadwy: 1 o bob 7,800 i 1 o bob 900), neu gyfanswm o 1,400 o bobl yn ystod yr amser hwn (cyfwng credadwy 95%: 400 i 3,400). Mae cryn ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon, a darperir cyfyngau credadwy i ddangos pa amrediad y gallwn fod yn hyderus bod y gwir ffigur ynddo.
- Amcangyfrifwyd bod 0.05% o'r boblogaeth gymunedol yn Lloegr wedi cael COVID-19, sef yr un fath â Chymru. Ceir tystiolaeth fod y cyfraddau digwyddedd yn Lloegr wedi cynyddu'n ddiweddar ond eu bod wedi gwastatáu bellach, o bosibl.

### Ymchwil

- Mae 5,019 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd y cyhoedd brys COVID-19 ar hyn o bryd, sy'n 302 o gynnydd yn y saith diwrnod diwethaf.



## **Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan lechyd Cyhoeddus Cymru**

- Mae nifer y galwadau i rif 111 y GIG a Galw lechyd Cymru ar gyfer symptomau sy'n ymwneud â COVID-19 yn isel ac yn sefydlog
- Gwelwyd brig yn nifer y galwadau am ambiwlans am resymau a allai fod yn gysylltiedig â COVID-19 ym mis Ebrill ond maent wedi syrthio ac yn sefydlog erbyn hyn
- Mae'r profion positif wedi gostwng o bron 50% ym mis Ebrill i 1% ar gyfer y 7 diwrnod yn dod i ben ar 29 Gorffennaf.
- Yn ystod yr wythnos ddiwethaf gostyngodd nifer y digwyddiadau COVID-19 a gadarnhawyd yn genedlaethol o gymharu â'r wythnos flaenorol
- Mae'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ac i unedau gofal dwys yn parhau i syrthio yn gyffredinol
- Mae'r prif ffocws diweddar ar weithgarwch yn y Gogledd, lle'r oedd dangosyddion gwyliadwriaeth yn sefydlog neu'n gostwng yn y rhan fwyaf o ardaloedd ond gyda chynnydd diweddar mewn ardaloedd yn nwyrain ardal Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIP) ac yng ngogledd Powys.
- Mae rhwng 1 a 10 o achosion newydd bob wythnos, a'r rheini mewn cartrefi gofal yn bennaf

### **Dangosfwrdd Data'r GIG**

- Diweddarwyd data lechyd Cyhoeddus Cymru ar 04/08/2020
- Diweddarwyd data ysbytai ar 05/08/2020

### **UNEDAU GOFAL DWYS LEFEL 3**

- O blith y cyfanswm o 144 o gleifion sydd mewn unedau gofal dwys lefel 3 yng Nghymru (sydd wedi cynyddu o 135 ers yr adroddiad blaenorol):
  - mae 2 yn gleifion y cadarnhawyd bod COVID arnynt (y ddau ym Mwrdd Caerdydd a'r Fro);
  - mae 3 yn gleifion yr amheuir bod COVID arnynt (1 ym Mwrdd Aneurin Bevan, 1 ym Mwrdd Betsi Cadwaladr ac un ym Mwrdd Hywel Dda)
- O blith y byrddau iechyd sydd ag unedau gofal dwys lefel 3:
  - Mae'r defnydd gwelyau ym Mwrdd Bae Abertawe yn 83% (i gyd yn gleifion heb COVID)
  - Mae'r defnydd gwelyau ym Mwrdd Hywel Dda yn 69% (gan gynnwys 1 claf yr amheuir bod COVID arno)

- Mae’r defnydd gwelyau ym Mwrdd Aneurin Bevan yn 53% (gan gynnwys 1 claf yr amheuir bod COVID arno)
- Mae’r defnydd gwelyau ym Mwrdd Betsi Cadwaladr yn 53% (gan gynnwys 1 claf yr amheuir bod COVID arno)
- Mae’r defnydd gwelyau ym Mwrdd Caerdydd a’r Fro a Bwrdd Cwm Taf Morgannwg yn llai na 50%.



**Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)**

- Os yw hynny’n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau’r cyngor a roddir.

